# STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL (DRAFFT)

Yn unol â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, mae'n ddyletswydd arnom baratoi a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer Sir Ddinbych.



Cam cyntaf datblygu ein strategaeth oedd asesu'r angen am doiledau ym mhob tref a phentref yn Sir Ddinbych. Cwblhawyd y gwaith hwn erbyn mis Hydref 2024.

Mae'r strategaeth ddrafft hon yn cynnwys adborth a chanfyddiadau o'r asesiad o angen a gynhaliwyd, ac mae'n cynnwys cynllun gweithredu yn dangos sut y byddwn yn diwallu'r anghenion a nodwyd.

Mae ymgynghoriad hwn ar y strategaeth ddrafft a ysgrifennwyd, ac fe'i cynhelir o 18 Rhagfyr 2024 tan 12 Chwefror 2025. Yr ydym yn croesawu sylwadau gan breswylwyr ac ymwelwyr i Sir Ddinbych. Bydd ymatebion a dderbynnir i'r holiadur hwn o gymorth i lywio'r Strategaeth Toiledau Lleol derfynol.

I gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â ni yn un o'r ffyrdd canlynol:

**E-bost:** toiledaucyhoeddus@sirddinbych.gov.uk

**Ar-lein:** Cwblhewch yr arolwg ar-lein www.denbighshire.gov.uk/ymgynghoriadau

**Drwy'r Post:** Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Blwch Post 62, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 9AZ.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi a diolch i chi am roi'ch amser i rannu eich barn.

*Ar gyfer yr arolwg a'r strategaeth ddrafft hon, mae'r term 'toiled' yn cynnwys cyfleusterau newid i fabanod a phobl ag anableddau. Gall y rhain fod mewn adeiladau cyhoeddus fel llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol, adeiladau preifat fel caffis a siopau, a thoiledau cyhoeddus y gofelir amdanynt gan y Cyngor.*

## Adran 1: Amdanoch chi

Yn yr adran hon, byddwn yn gofyn i chi ddweud ychydig wrthym amdanoch chi'ch hun. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall eich rhesymau dros gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Bydd hefyd yn ein helpu i ddeall a oes angen i ni wneud unrhyw ystyriaethau ychwanegol wrth gwblhau ein Strategaeth Toiledau Lleol.

| **1. Pa rai o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?**<br><br>**Sylwer:** os ydych chi'n teimlo eich bod yn disgyn i fwy nag un categori, gofynnwn i chi lenwi'r holiadur ar gyfer pob categori sy'n berthnasol i chi, gan y bydd y cwestiynau sy'n cael eu gofyn i chi yng ngweddill yr arolwg yn dibynnu ar eich ateb i'r cwestiwn hwn. | |
|---|---|
| Rwy'n byw yn Sir Ddinbych | |
| Rwy'n gweithio yn Sir Ddinbych | |
| Rwy'n dwrist / ymwelydd â Sir Ddinbych | |
| Rwy'n Gynghorydd Sir yn Sir Ddinbych, yn Aelod o Gyngor Dinas, Tref neu Gymuned, yn Aelod o'r Senedd neu'n Aelod o Senedd y DU | |
| Rwy'n gynrychiolydd i sefydliad sy'n cefnogi pobl sydd ag anableddau neu anghenion eraill sy'n effeithio arnynt wrth ddefnyddio'r toiled | |
| Rwy'n berchen ar fusnes yn Sir Ddinbych, neu'n gweithio i un | |
| Arall * (dywedwch wrthym ni) | |

1. **Ym mha rai o'r lleoedd canlynol ydych chi'n byw, gweithio neu'n ymweld â nhw fwyaf?**

Os nad yw eich dinas, tref neu bentref ar y rhestr, dewiswch yr un agosaf. Gallwch adael unrhyw opsiynau amherthnasol yn wag.

| | Dwi'n byw yma | Dwi'n gweithio yma | Dwi'n ymweld yma |
|---|---|---|---|
| Y Rhyl | | | |
| Prestatyn | | | |
| Dyserth | | | |
| Rhuddlan | | | |
| Llanelwy | | | |
| Dinbych | | | |
| Rhuthun | | | |
| Llangollen | | | |
| Corwen | | | |

| | |
|---|---|
| **2. A oes unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol i chi?**<br><br>Bydd eich atebion i'r cwestiwn hwn yn ein helpu i ddeall a oes tueddiadau penodol ymysg pobl sydd â gwahanol anghenion wrth feddwl am doiledau cyhoeddus.<br><br>Bydd y data hwn yn cael ei drin yn gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd i allu eich adnabod chi'n bersonol.<br><br>Gallwch roi tic ar fwy nag un dewis. Os nad oes unrhyw un yn berthnasol i chi, gallwch neidio dros y cwestiwn hwn | |
| Rydw i'n hŷn na 65 oed | |
| Fi yw'r prif ofalwr ar gyfer plentyn neu blant iau na 4 oed | |
| Rydw i'n feichiog, neu wedi bod yn ddiweddar (o fewn y 6 mis diwethaf) | |
| Mae gen i a/neu rywun yn fy aelwyd anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor sy'n effeithio ar sut rydw i ac/neu sut maen nhw'n defnyddio'r toiled | |

**Section 2: Ynglŷn â'r Strategaeth**

Yn yr adran hon, byddwn yn dweud wrthych am nodau ein Strategaeth. Yna byddwn yn dangos rhai pwyntiau gweithredu i chi yn ein barn ni fydd yn ein helpu i gyflawni'r nodau hynny, ac yn gofyn i chi nodi a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â nhw.

3. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, dywedwyd wrthym y dylai toiledau cyhoeddus fod wrth gyfleusterau neu amwynderau eraill fel meysydd parcio, atyniadau hamdden, mannau prydferth.

**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**
Hyrwyddo cyfle cyfartal i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol i bob rhan o'r gymuned ynghyd ag ymwelwyr i Sir Ddinbych, heb ragfarnu.

| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio i sicrhau bod pawb y mae angen toiled arnynt yn cael mynediad i un sy'n diwallu eu hanghenion. | | | |
| Byddwn yn gweithio i sicrhau nad yw toiled priodol fyth yn bell i ffwrdd. | | | |
| Byddwn yn gweithio i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at doiled heb ragfarnu. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, cawsom sylwadau a oedd yn dweud bod angen toiledau cyhoeddus ym mhob tref a phentref ar draws Sir Ddinbych, p'un a ydynt yn eiddo i'r Cyngor neu mewn busnesau preifat.<br><br>**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**<br>Adolygu'r ddarpariaeth bresennol mewn trefi a phentrefi lle nad oes angen am gyfleusterau toiledau wedi ei nodi. | | | |
| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
| Mae rhai trefi a phentrefi yn Sir Ddinbych nad oes angen toiledau cyhoeddus arnynt.<br>Byddwn yn gweithio i ddeall pa doiledau cyhoeddus sydd ar gael ym mhob tref a phentref yn Sir Ddinbych, gan gynnwys y rheiny nad oes mo'u hangen. | | | |

5. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, dywedwyd wrthym mai glendid a hylendid toiledau cyhoeddus oedd un o'r prif resymau pam fyddai pobl yn dewis toiled penodol.

**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**
Mewn trefi a phentrefi lle nodir angen am gyfleusterau toiledau, adolygu'r ddarpariaeth bresennol a monitro gweithrediadau glanhau / oriau agor i sicrhau y ceir y ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac effeithlon.

| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn ystyried argaeledd toiledau cyhoeddus, yn cynnwys oriau agor | | | |
| Byddwn yn asesu'r amserlen lanhau | | | |
| Byddwn yn asesu cyflwr a gofynion cynnal a chadw'r toiledau | | | |

6. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, gofynnwyd i ni edrych am ffyrdd eraill o gael cyllid a chadw'r toiledau ar agor.

**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**
Archwilio dewisiadau gyda Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned os oes diddordeb mewn modelau cyflawni amgen neu gyfraniadau tuag at ariannu costau darparu cyfleusterau toiledau.

| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn ceisio gweld a all ein partneriaid mewn trefi a phentrefi ledled Sir Ddinbych redeg toiledau sy'n eiddo i'r Cyngor, a gofalu amdanynt | | | |

7. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, gwnaethom ddysgu fod tua 60% o bobl yn fodlon talu i gael defnyddio toiled cyhoeddus. Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer tua hanner o'u toiledau cyhoeddus eu hunain y mae Cyngor Sir Ddinbych yn codi tâl.

**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**
Adolygu'r strwythur codi tâl i'w defnyddio er mwyn sicrhau bod digon o refeniw i roi rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer cyfleusterau toiledau lle mae angen, o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer toiledau cyhoeddus.

| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gwirio cost defnyddio'r toiledau cyhoeddus i wneud yn siŵr bod gennym ddigon o arian yn ein cyllideb i ddarparu toiled mewn ardal lle mae angen am un | | | |

8. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, clywsom fod pobl yn hapus i dalu i ddefnyddio toiled ond weithiau ni fydd y newid cywir ganddynt a byddai taliadau cerdyn yn help.

**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**
Adolygu cyfleoedd am gyllid grant i uwchraddio rhai cyfleusterau er mwyn gallu cymryd taliadau digyffwrdd i osgoi'r angen i ddod o hyd i'r arian parod cywir. *

| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn archwilio unrhyw grantiau sydd ar gael i'n cynorthwyo i uwchraddio cyfleusterau ar gyfer taliadau cerdyn digyffwrdd. | | | |
| Rydym yn gwybod nad yw'r arian parod cywir gan bobl bob amser ar gyfer defnyddio toiled cyhoeddus. Felly byddwn yn asesu a yw'n angenrheidiol derbyn taliadau arian parod a thaliadau cerdyn yn ein cyfleusterau. | | | |

9. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, cytunodd rhwng 65-80% o bobl y dylid bod ag o leiaf un cyfleuster Changing Places fesul 10,000 o'r boblogaeth.

**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**
Adolygu cyfleoedd ariannu a hyrwyddo gyda sefydliadau partner i ddarparu cyfleusterau toiled 'Changing Places' ychwanegol yn Sir Ddinbych.

| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Asesu'r nifer presennol o doiledau 'Changing Places' yn Sir Ddinbych | | | |
| Gweithio gyda phartneriaid i weld a ellid gosod toiledau 'Changing Places' mewn ardaloedd eraill ledled Sir Ddinbych | | | |
| Archwilio unrhyw grantiau sydd ar gael i bartneriaid / cwmnïau annibynnol i osod y cyfleusterau hyn ar eu safleoedd | | | |

<table>
<tr><td colspan="4">10. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, roedd tua 22% o ymatebwyr yn teimlo y dylai’r Cygnor barhau i sicrhau bod toiledau ar gael, gan gynnwys darpariaeth mewn adeiladau presennol sy’n eiddo i’r Cyngor.<br><br>Fel rhan o’n Strategaeth, ein nod fydd:<br>Adolygu’r ddarpariaeth bresennol o fewn yr holl adeiladau sy’n eiddo i’r Cyngor, yn cynnwys llyfrgelloedd, er mwyn i’r ddarpariaeth fod ar gael i’r cyhoedd.</td></tr>
<tr><td>Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:<br><br>Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno?</td><td>Cytuno</td><td>Anghytuno</td><td>Ddim yn gwybod</td></tr>
<tr><td>Byddwn yn gweithio i ddeall ym mha adeiladau sy’n eiddo i’r Cyngor ym mhob tref a phentref yn Sir Ddinbych mae toiledau ar gael, gan gynnwys y rheiny nad oes mo’u hangen.</td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>

11. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, gwnaethom ddysgu y byddai pobl yn ymweld â busnes roedden nhw'n gwybod y byddai toiled yn debygol o fod yno.

**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**
Ymgysylltu â chyrff cyhoeddus eraill megis darparwyr gofal iechyd i weld a ellir gwneud i'r ddarpariaeth bresennol fod ar gael at ddefnydd y cyhoedd.

| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda meddygfeydd, ysbytai, ac ati, ym mhob tref a phentref ledled Sir Ddinbych i weld a all aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yno am apwyntiad ddefnyddio eu cyfleusterau | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, clywsom y byddai 65% o bobl yn fwy tebygol o gefnogi busnes sy'n cymryd rhan mewn Cynllun Toiledau Cymunedol (trwy brynu nwyddau neu wasanaethau gan y busnes hwnnw) hyd yn oed os nad oedd rheidrwydd arnynt i wneud hynny.<br><br>**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**<br>Hyrwyddo'r Cynllun Toiledau Cymunedol, i wneud i'r cyfleusterau toiledau fod ar gael yn y mannau sydd eu hangen fwyaf drwy gyllideb wedi'i neilltuo. | | | |
| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
| Byddwn yn annog busnesau lleol i agor eu toiledau ar gyfer aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn gwsmeriaid er mwyn cynyddu nifer y toiledau y gellir eu defnyddio am ddim ledled Sir Ddinbych | | | |

13. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, dywedwyd wrthym bod toiledau diogel a hygyrch yn fwy pwysig na nifer y toiledau a ddarperir.

**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**
Parhau i weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru, preswylwyr a grwpiau cymunedol i sicrhau bod cyfleusterau mor ddiogel â phosibl, gan hefyd leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid i sicrhau bod cyfleusterau toiledau ym mhob tref a phentref yn ddiogel i'w defnyddio | | | |

14. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, cawsom awgrymiadau am ddefnyddio dyluniadau a thechnoleg fodern sy'n hawdd eu cynnal a'u cadw er mwyn lleihau costau hirdymor, fel toiledau sy'n glanhau eu hunain, neu'r rhai â nodweddion cynaliadwy a fyddai â gofynion cynnal a chadw is.

**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**
Archwilio gwelliannau a dewisiadau amgen ar gyfer cyflwyno nodweddion ecogyfeillgar a sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddatblygiad ac ynni cynaliadwy.

| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn edrych am ffyrdd eraill o gael toiledau ecogyfeillgar ledled Sir Ddinbych. | | | |

15. Yn yr Ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion, dywedwyd wrthym bod arwyddion ffisegol i ddod o hyd i doiledau mewn lleoliadau poblogaidd yn bwysig.

**Fel rhan o'n Strategaeth, ein nod fydd:**
Gwella ymwybyddiaeth a'r wybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth toiledau yn Sir Ddinbych drwy sicrhau bod toiledau cyhoeddus wedi'u harwyddo'n gywir. Sicrhau bod y wybodaeth hon yn gywir ar ein gwefan ac archwilio cynlluniau mapio eraill i hyrwyddo darpariaeth Sir Ddinbych a darpariaethau eraill sydd hefyd ar gael i'r cyhoedd.

| **Er mwyn cyrraedd y nod hwn, credwn y dylai ein cynllun gweithredu gynnwys y pwyntiau canlynol:**<br><br>**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gwybod lle mae toiledau cyhoeddus yn Sir Ddinbych drwy osod arwyddion eglur | | | |
| Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth ar ein gwefan yn gywir ac yn gyfredol | | | |
| Byddwn yn ymchwilio i fapiau eraill sy'n dangos lle mae toiledau ar gael i bawb eu defnyddio | | | |

19. Os ydych yn anghytuno ag unrhyw rai o'r camau gweithredu, dywedwch wrthym pam:

20. Os ydych yn meddwl bod unrhyw beth ar goll o'r camau gweithredu, dywedwch wrthym:

## Diolch. Rydych chi wedi cwblhau prif ran yr arolwg.

Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech hefyd gymryd yr amser i ddweud ychydig wrthym amdanoch eich hun drwy ateb rhywfaint o ddata monitro cydraddoldeb safonol.

Bydd deall pwy ydych chi yn ein helpu ni i amlygu themâu cyffredin yn y ffordd yr hoffech chi i ni ymgysylltu e.e. os oes unrhyw fater yn effeithio ar gymuned benodol.

**Beth yw eich oed?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

- ❒ 0-15 mlwydd oed
- ❒ 16-24 mlwydd oed
- ❒ 25-34 mlwydd oed
- ❒ 35-44 mlwydd oed
- ❒ 45-54 mlwydd oed
- ❒ 55-64 mlwydd oed
- ❒ 65-74 mlwydd oed
- ❒ 75 mlynedd a hŷn
- ❒ Gwell gen i beidio â dweud

**Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

- ❒ Cymreig
- ❒ Prydeinig
- ❒ Saesneg
- ❒ Gwyddelig
- ❒ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- ❒ Albanig
- ❒ Gwell gen i beidio â dweud

❒ Arall

| |
|---|
| |

**Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un ateb sy'n disgrifio eich cefndir ethnig orau**

- ❐ Gwyn
- ❐ Cymysg -Gwyn a Du Caribïaidd
- ❐ Cymysg -Gwyn a Du Affricanaidd
- ❐ Du -Caribïaidd
- ❐ Cefndir Du arall
- ❐ Asiaidd -Bangladesiaidd
- ❐ Asiaidd -Tsieineaidd
- ❐ Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
- ❐ Cymysg -Gwyn Caribïaidd
- ❐ Unrhyw gefndir amryfal / cymysg arall
- ❐ Du -Affricanaidd
- ❐ Asiaidd -Indiaidd
- ❐ Asiaidd -Pacistanaidd
- ❐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall
- ❐ Gwell gen i beidio â dweud

❐ Unrhyw grŵp ethnig arall

**Sut fyddech chi'n eich disgrifio eich hun orau?** Ticiwch **un opsiwn yn unig**

| ❐ | ❐ | ❐ |
|---|---|---|
| Dyn | Dynes | Gwell gen i beidio â dweud |

❒ Rydw in meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall

**Pa un o'r termau canlynol sy'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol orau?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

| ❒ | ❒ | ❒ | ❒ | ❒ |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol/ Strêt | Dyn Hoyw | Dynes hoyw / Lesbiaidd | Deurywiol/Bi | Gwell gen i beidio â dweud |

❒ Arall

**Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

| ❒ | ❒ | ❒ |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Gwell gen i beidio â dweud |

**Beth yw eich crefydd neu gred?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

- ❒ Dim crefydd
- ❒ Cristnogaeth
- ❒ Mwslim
- ❒ Bwdhaeth
- ❒ Iddewiaeth
- ❒ Siciaeth
- ❒ Anffiddiwr
- ❒ Gwell gen i beidio â dweud

❒ Arall

| |
|---|
| |

**Anabledd:**

Mae Adran 6(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan unigolyn anabledd os:

• Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a

• 2. bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.

**Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, ydych chi'n eich ystyried eich hun yn anabl?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

| ❒ | ❒ | ❒ |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Gwell gen i beidio â dweud |

**Gofalu:**

Ydych chi'n gofalu am neu'n helpu aelodau'ch teulu, ffrindiau, cymdogion neu bobl eraill oherwydd:

• Cyflwr neu anabledd corfforol neu iechyd meddwl hirdymor

• Problemau sy'n gysylltiedig Â henaint

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

| ❒ | ❒ | ❒ |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | |

**Dewiswch y dewisiadau mwyaf priodol isod mewn perthynas â'r Gymraeg:**

**Gallu siarad Cymraeg**

- ❒ Yn hyderus iawn
- ❒ Hyderus
- ❒ Yn eithaf hyderus
- ❒ Ddim yn hyderus iawn
- ❒ Ddim yn hyderus o gwbl
- ❒ Dim diddordeb

**Gallu darllen Cymraeg**

- ❒ Yn hyderus iawn
- ❒ Hyderus
- ❒ Yn eithaf hyderus
- ❒ Ddim yn hyderus iawn
- ❒ Ddim yn hyderus o gwbl
- ❒ Dim diddordeb

**Gallu ysgrifennu yn Cymraeg**

- ❒ Yn hyderus iawn
- ❒ Hyderus
- ❒ Yn eithaf hyderus
- ❒ Ddim yn hyderus iawn
- ❒ Ddim yn hyderus o gwbl
- ❒ Dim diddordeb

**Gwybodaeth am y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig**

- ❒ Yn hyderus iawn
- ❒ Hyderus
- ❒ Yn eithaf hyderus
- ❒ Ddim yn hyderus iawn
- ❒ Ddim yn hyderus o gwbl
- ❒ Dim diddordeb

## Aros mewn cysylltiad

Os hoffech chi gadw mewn cysylltiad, rhowch wybod i ni. Bydd eich data yn cael ei gadw ar ffeil gan Gyngor Sir Ddinbych at ddibenion cysylltu â chi dim ond am y Strategaeth Toiledau Lleol draft Sir Ddinbych. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn trin eich data personol, ewch i gwefan y Cyngor: www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd

## Sut hoffech chi i ni gysylltu â chi?

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

| ❒ | ❒ | ❒ | ❒ |
|---|---|---|---|
| E-bost | Llythyr drwy'r post | Galwad Ffôn | WhatsApp / SMS |

❒ Mewn ffordd arall

**Nodwch y manylion cyswllt sydd orau gennych chi isod**

Nodwch: os mai llythyr sydd orau gennych chi, cofiwch gynnwys eich cod post

**Beth yw eich iaith dewisol?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

❐ Cymraeg

❐ Saesneg

❐ Iaith arall

Diolch am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn